

Annwyl riant/warchediwad,

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd yn gynnes i wyl lenyddol Bryn Tawe, sef achlysur a fwriedir i arddangos gwaith eich mab/merch wrth baratoi at brosiect Uned 2 y Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Y mae'r gwaith hwn yn ymwneud â chynnydd a chyflawniad eich plentyn yn ei wersi/gwersi Cymraeg, Saesneg ac leithoedd Rhyngwladol (Ffrangeg a Mandarin), lle rhoddwyd ffocws i arwyr ym myd y chwedlau.

Cynhelir yr wyl yn Neuadd Cilfwnwr yr ysgol ar Orffennaf y 7fed eleni. Fe fydd croeso ichi alw i mewn i'r ysgol i fwynhau cyfraniadau pob dosbarth ym mlwyddyn 7 at yr wyl, a fydd yn cynnwys ystod o ffurfiau ysgrifenedig a chlipiau fideo. Y cwestiwn allweddol y rhoddwyd ystyriaeth iddo wrth astudio'r uned oedd 'pa mor bwysig yw arwyr ym myd y chwedlau yn y tair iaith a astudiaf?' a dyma y canolbwyntir arno felly yng nghyfraniadau'r disgyblion at yr arddangosfeydd yn yr wyl. Fe'ch gwahoddir i alw i mewn rhwng 12:40 ac 1:30 sef y cyfnod a neilltuir ar gyfer cinio.

Bydd siop lyfrau Cymraeg a Saesneg ar gael yno, felly croeso i ddisgyblion ddod ag arian parod er mwyn prynu llyfr i ddarllen dros yr haf!

Os na allwch fynychu, fe fydd modd ichi gael blas ar uchafbwyntiau'r wyl yn ddigidol – a hynny mewn fideo a lluniau - drwy ddilyn dolen a gaiff ei rhannu a â chi yn dilyn yr achlysur.

Diolch yn fawr am eich cymorth a'ch cefnogaeth wrth gyfoethogi addysg eich plentyn.

Yr eiddoch yn gywir,

Elidir Dafydd
(Arweinydd y MDaPh leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL** | Aur

